

**Eitem: 11**

**Teitl: Polisïau pobl**

|                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gweithredu / Action required</b>                                                             | I'w gymeradwyo.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Amseru / Timing</b>                                                                          | Arferol, fel rhan o'r cylch diweddarau polisi.                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <b>Argymhelliad / Recommendation</b>                                                            | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo mabwysiadu 3 pholisi fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth.                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Risg / Risk</b>                                                                              | <p><b>CRR1 – Pobl a sgiliau</b> – sicrhau ein bod yn cadw ac yn caffael y cymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau a'n bod yn cefnogi pobl Llais.</p> <p>Mae hefyd yn cyd-fynd ag <b>Archwaeth Risg RA8</b> – awydd brwd i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well.</p> |
| <b>Cyllid / Finance</b>                                                                         | Mae yna gostau arferol cefnogi gweithredu ein polisïau, sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, mae cost ychwanegol bosibl o absenoldeb ychwanegol a roddir trwy Bolisi Newyddenedigol gwell. Fodd bynnag, mae hynny wedi'i asesu fel isel.                                                              |
| <b>Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective</b> | <p>Mae hyn yn ymwneud â Blaenoriaeth 5 Cynllun Blynyddol Llais – sef tyfu a gwella fel sefydliad</p> <p>Mae hefyd yn ymwneud â Strategaeth 3 blynedd Llais 2024-2027 - Blaenoriaeth 05. Esblygu fel sefydliad i ddod yn sefydliad aeddfed, sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo, ac sy'n uchelgeisiol.</p>            |
| <b>Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity &amp; Inclusion</b>                    | Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn nodweddion ym mhopeth a wnawn gyda'n pobl yn Llais. Mae asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau i lywio pob un o'r polisïau a gyfeiriwyd at ei gymeradwyo. Mae'r asesiad yn nodi effaith gadarnhaol drwy gyflwyno pob un o'r 3 pholisi.                |
| <b>Cyfathrebu / Communications</b>                                                              | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:                                                                                                                                                                                                                                                       |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | <b>Mewnol:</b> ein pobl <input checked="" type="checkbox"/><br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/><br>Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                        |
| <b>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Alyson Thomas, Prif Weithredwr                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <b>Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | <p>Mae'r polisïau hyn yn adeiladu ar bolisïau blaenorol y sefydliad, gyda diweddariadau a diwygiadau sy'n adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol newydd a newidiadau arfer da i gyflogwyr.</p> <p>Mae'r dogfennau hefyd wedi cael eu hystyried a'u cefnogi gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth.</p> |
| <b>Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant, a Datblygu Sefydliadol.                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Dyddiad / Date</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Tachwedd 2025                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Cefndir / Background</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <p>Mae 3 pholisi wedi cael eu hail-ddatblygu a'u hail-ddrafftio oherwydd newidiadau deddfwriaethol a newidiadau eraill. Y rhain yw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi absenoldeb newyddenedigol a gofal</li> <li>• Polisi atal aflonyddu rhywiol</li> <li>• Polisi a gweithdrefn diogelu.</li> </ul> <p>Mae'r polisïau hyn wedi mynd trwy brosesau adolygu mewnol, gan gynnwys ymgynghori â staff ac undebau llafur, ac maent wedi cael eu hasesu trwy ein prosesau fframwaith asesu effaith integredig. Mae'r polisïau wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth ac wedi cael eu cefnogi gan y Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o elfennau allweddol pob polisi ac yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.</p> |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>Manylion / Detail</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <p>Isod mae crynodeb o'r polisïau sy'n cael eu hystyried:</p> <p><b>Polisi absenoldeb a thâl newyddenedigol a gofal – Atodiad 1</b></p> <p>Ym mis Ebrill 2025, gweithredodd llywodraeth y DU hawl cyflogaeth newydd: Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol Statudol (SNCL). Mae'r deddfwriaeth</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

hon yn cefnogi rhieni y mae angen gofal meddygol ar eu babanod newydd-anedig yn fuan ar ôl eu geni.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith newydd hon, ac i gefnogi ein dull sy'n seiliedig ar werthoedd fel cyflogwr yn y sector cyhoeddus, mae'r polisi'n darparu absenoldeb â thâl ychwanegol i weithwyr sydd:

- A pherthynas rhiant neu bersonol â'r babi
- Yn gyfrifol am fagwraeth y babi
- Yn cymryd absenoldeb i ofalu am y babi.

Mae'r hawl hon yn ychwanegol at ddarpariaethau absenoldeb presennol megis absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, ac absenoldeb rhiant a rennir. Mae polisi Llais yn cynnwys taliad ar gyfradd uwch, ac mae'r safbwynt hwn wedi cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth, fel yr amlinellir isod.

### **Polisi atal aflonyddu rhywiol – Atodiad 2**

Yn dilyn Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023, daeth dyletswydd newydd i rym ym mis Hydref 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gymryd camau rhagweithiol i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys:

- Creu amgylchedd gwaith diogel
- Gweithredu polisïau clir
- Ymateb yn effeithiol i gwynion.

Disgwylir newidiadau pellach o dan y Bil Hawliau Cyflogaeth sydd ar ddod, a ddisgwylir ym mis Hydref 2026. Bydd y rhain yn codi'r safon o “gampau rhesymol” i “pob cam rhesymol” ac yn cyflwyno atebolrwydd am aflonyddu gan drydydd parti (e.e. gan gleientiaid neu gwsmeriaid) os nad yw cyflogwyr yn gweithredu'n briodol.

### **Polisi Diogelu – Atodiad 3**

Cafodd y polisi diogelu ei ddrafftio a'i gytuno'n wreiddiol gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2023. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i roi canllawiau cliriach i'n pobl ar beth i'w wneud pan fyddant yn wynebu mater diogelu fel ein bod yn ymateb yn briodol i bryderon diogelu.

### **Adborth ar yr ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â staff ac undebau llafur ar y polisïau. Er na dderbyniwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â'r **polisi Atal Aflonyddu Rhywiol**, gwnaed

awgrymiadau y dylai'r polisi **Absenoldeb Newyddenedigol a Gofal** gynnig cefnogaeth fwy hael na'r trefniadau statudol a ddarperir.

I archwilio hyn ymhellach, cysylltodd y Tîm Pobl â nifer o gyrff hyd fraich eraill yng Nghymru. Cadarnhaodd 5 ymatebydd eu bod yn cynnig cyflog uwch (hyd at gyflog llawn am 12 wythnos). Roedd amrywiadau yn bodoli mewn cyfnodau cymhwyso ac amodau ad-dalu os yw gweithiwr yn gadael y sefydliad. Roedd y cyfnodau cymhwyso yn amrywio o flwyddyn i 26 wythnos.

Ar hyn o bryd mae'r cyflog statudol yn £187.80 yr wythnos, a fyddai'n ostyngiad ariannol sylweddol i'r staff yr effeithir arnynt.

Derbyniwyd adborth gan staff ac undebau llafur ar y **polisi a'r weithdrefn Diogelu** wedi'u diweddarau ac mae wedi'i ystyried a'i ymgorffori'n ofalus, gydag 1 eithriad. Ni chytunwyd ar gynnig yr undeb llafur i rannu'r polisi a'r weithdrefn yn 2 ddogfen ar wahân ar ôl i'r Tîm Gweithredol ei ystyried. Mae hyn oherwydd ei bod yn cael ei hystyried yn bwysig bod ein pobl yn deall y cyd-destun ehangach a nodir yn ein polisi er mwyn annog cydymffurfiaeth â'n gweithdrefnau mwy manwl.

I gefnogi'r polisi, cedwir log diogelu yn weithredol ar draws pob rhanbarth i gofnodi atgyfeiriadau. Mae'r log hwn yn destun adolygiad misol i sicrhau cysondeb dull, cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau deddfwriaethol a chyfrifoldebau ehangach, ac i nodi cyfleoedd i ddysgu a gwella.

Mae ein pobl yn parhau i dderbyn cyngor, arweiniad a dysgu wedi'i dargedu ar ddiogelu, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chynnal arfer gorau.

Mae hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i amgylchedd diogel ac ymatebol i bobl Cymru a'n pobl ni.

### **Ystyriaethau'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth**

Cyflwynwyd drafft o bolisi Absenoldeb Gofal Newyddenedigol i'r pwyllgor, yn ymgorffori'r holl ofynion statudol. Yna gofynnwyd iddynt ystyried gwella'r gefnogaeth a gynigir o dan y polisi. Ymhlith yr ystyriaethau allweddol yn ystod y drafodaeth roedd:

- Defnydd cyfrifol o arian cyhoeddus
- Ein cyfrifoldebau fel sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd
- Yr effaith bersonol ar staff yn ystod gofal newyddenedigol,
- Goblygiadau ariannol i Llais, gan gynnwys:
  - Amllder defnydd

- Amseriad a chost staff cyflenwi
- Amodau ad-dalu.

Trafodwyd a ystyriwyd yr opsiynau canlynol yn fanwl:

- Tâl: aros ar y gyfradd statudol neu gael ei gynyddu. Os yw wedi'i wella, i ba lefel - cyflog llawn neu hanner cyflog
- Pe bai cyflog uwch yn cael ei fabwysiadu, a ddylai fod cyfnod cymhwyso e.e. 26 wythnos, blwyddyn
- Cymal ad-dalu os yw'r gweithiwr yn gadael o fewn blwyddyn.

I gynorthwyo gyda'r ystyriaeth, ystyriodd y Tîm Pobl pa mor aml y byddai absenoldeb gofal newyddenedigol yn debygol o gael ei dalu. Ers ffurfio Llais, dim ond 2 aelod o staff sydd wedi cymryd absenoldeb mamolaeth gyda disgwyl i drydydd aelod o staff gymryd absenoldeb mamolaeth yn ddiweddarach eleni. Nid oes unrhyw aelodau o staff wedi cymryd absenoldeb tadolaeth nac absenoldeb mabwysiadu. O'r 2 fabi a anwyd i aelodau staff Llais yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'r naill na'r llall wedi gofyn am amser i ffwrdd oherwydd derbyniadau newyddenedigol.

Yn ystadegol, dim ond 1 o bob 7 baban a anwyd yn y DU sydd angen derbyniad newyddenedigol, gyda'r cyfnod derbyn i uned newyddenedigol yn 7 diwrnod ar gyfartaledd (Bliss, 2025). Dydy e ddim yn bosibl darparu rhagamcan ariannol cywir o gyflwyno absenoldeb gofal newyddenedigol (gwell neu statudol) ar gyfer y sefydliad; fodd bynnag, gan ystyried profiadau hyd yn hyn, ynghyd â phroffil oedran ein staff, rhagwelir y byddai amllder y ceisiadau yn isel ar y cyfan.

## **Argymhellion y Pwyllgor**

Yn dilyn trafodaethau manwl ac adborth, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd fabwysiadu'r polisïau fel a ganlyn:

**Polisi absenoldeb a thâl newyddenedigol a gofal** – bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r polisi drafft gyda'r gwelliannau canlynol i'r gofynion statudol:

- Tâl llawn am hyd at 12 wythnos o absenoldeb newyddenedigol a gofal.
- Byddai cymhwysedd ar gyfer cais o'r fath ar ôl 26 wythnos o gyflogaeth
- Dim cymal ad-dalu i unrhyw un a adawodd ein cyflogaeth wedi hynny ar ôl derbyn tâl am absenoldeb newyddenedigol a gofal.

Teimlai'r pwyllgor y byddai hyn yn dangos ymrwymiad byw i'n gwerthoedd a'n hymddygiadau wrth gefnogi ein staff yn rhagweithiol drwy ddileu'r potensial ar gyfer ffynonellau ychwanegol o bryder a straen trwy brofiadau heriol a allai newid bywydau.

**Polisi atal aflonyddu rhywiol** – bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r polisi drafft heb unrhyw welliannau.

**Polisi diogelu** – bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r polisi drafft heb unrhyw welliannau.

### **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo mabwysiadu'r polisïau hyn fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth.

Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo mabwysiadu'r polisïau hyn, byddant yn cael eu lansio a'u hychwanegu fel rhan o'n fframwaith polisi Llais at y gronfa ddata polisïau ar-lein.

Bydd y lansiad yn cael ei gefnogi gan weithgarwch cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer staff a rheolwyr llinell. Cynhelir sesiynau galw heibio i gefnogi dealltwriaeth staff a gwirfoddolwyr o'r polisi a'r weithdrefn diogelu, ynghyd â hyfforddiant mwy manwl a thargedig i staff sydd â chyfrifoldebau diogelu penodol.